

Cais am ganiatáu trosglwyddo trwydded safle o dan Ddeddf Trwyddedu 2003.

Cyn llenwi'r ffurflen hon darllenwch y canllawiau esboniadol ar ddiwedd y ffurflen a'r canllawiau esboniadol sy'n cyd-fynd â hi.

Os ydych yn cyflwyno cais yn electronig ar-lein:-

1. Lawrlwythwch y ffurflen gais a'r ffurflen ganiatâd gan ddefnyddio'r dolenni ar y dudalen we: <http://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/busnes/trwyddedu-a-hawlenni/alcchod-ac-adloniant/trwydded-safle/>
2. Cyflwynwch y ffurflen gais wedi'i chwblhau, y ffurflen ganiatâd wedi'i llofnodi a thalu'r ffi a bennwyd o £23 gan ddefnyddio'r gwasanaeth ar-lein. Rhaid i ymgeiswyr unigol ddarparu copïau o ddogfennau sy'n dangos eu cymhwysedd i weithio. Ceir rhestr lawn o'r dogfennau derbynol yn nodyn cyfarwyddyd 15 ar ddiwedd y ffurflen gais.
3. Postiwch y Drwydded Safle, Crynodeb o'r Drwydded Safle a'r ffurflen ganiatâd wreiddiol wedi'i llofnodi i'r Adain Drwyddedu (cyfeiriad uchod).
4. Yr Adain Drwyddedu sy'n gyfrifol am anfon copi o'r cais ymlaen at Swyddog Trwyddedu yr Heddlu.

Os ydych yn cyflwyno copi caled o'r cais:-

1. Anfonwch y ffurflen gais wedi'i chwblhau i'r Adain Drwyddedu gan ddefnyddio'r cyfeiriad uchod ynghyd â'r canlynol:-
 - Y ffurflen ganiatâd wedi'i chwblhau gan y deiliad trwydded safle cyfredol.
 - Rhaid i ymgeiswyr unigol ddarparu copïau o ddogfennau sy'n dangos eu cymhwysedd i weithio. Ceir rhestr lawn o'r dogfennau derbynol yn nodyn cyfarwyddyd 15 ar ddiwedd y ffurflen gais
 - Y ffi a bennwyd sef £23. Dylid gwneud sieciau'n daladwy i "Cyngor Sir Caerfyrddin".
 - Y drwydded safle bresennol, dogfen grynodol y drwydded neu'r rhan berthnasol ohoni neu esboniad ynghylch pam na ellir ei chyflwyno.
2. Anfonwch gopi o'r cais at:-
Gorsaf yr Heddlu, Heol y Ffowndri, Rhydaman, Sir Gaerfyrddin, SA18 2LS
Home Office Immigration Enforcement, Alcohol Licensing Team, Lunar House,
40 Wellesley Road, Croydon, CR9 2BY

Ni fernir bod cais wedi'i gwblhau tan fod holl elfennau'r cais wedi dod i law'r Awdurdod. Os ydych yn llenwi'r ffurflen hon â llawysgrifen, a fydddech cystal ag ysgrifennu'n glir gan ddefnyddio priflythrennau. Ym mhob achos gofawch fod eich atebion o fewn llinellau'r blychau ac wedi'u hysgrifennu neu eu teipio mewn inc du. Defnyddiwch ddalennau ychwanegol os bydd angen. Mae'n bosibl y dymunwch gadw copi o'r ffurflen wedi'i chwblhau er gwybodaeth.

Mae dyletswydd arnom, fel corff cyhoeddus, i ddiogelu'r cyllid cyhoeddus a weinyddir gennym ac i'r diben hwn cawn ddefnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd gennych ar y ffurflen hon i atal a darganfod twyll. Gallwn hefyd rannu'r wybodaeth hon â chyrrff eraill sy'n gyfrifol am archwilio neu weinyddu arian cyhoeddus at y dibenion hyn.

I gael rhagor o wybodaeth a chyngor, ewch i wefan y Cyngor

<http://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/busnes/trwyddedu-a-hawlenni/alcohol-ac-adloniant/trwydded-safle/> neu cysylltwch â'r Adain Drwyddedu drwy ffonio 01267 228924, neu drwy e-bostio diogelurcyhoedd@sirgar.gov.uk.